# YR ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNTAF AM WEITHREDU A RHOI AR WAITH RAN 2 (CYLLID) O DDEDDF CYMRU 2014

# Yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf am Weithredu a Rhoi ar Waith Ran 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 23(1)(b) o Ddeddf Cymru 2014

Fe'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 23(1)(c) o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2015

© Hawlfraint y Goron 2015

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archive, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd y sawl biau'r hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk

Fe’i hargraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

**RHAGAIR**

Mae Deddf Cymru 2014 yn datganoli pecyn cynhwysfawr o bwerau trethu a benthyca i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan roi rhagor o arfau iddynt gryfhau'r economi a chreu rhagor o swyddi.

Flwyddyn ar ôl deddfu, mae'r adroddiad hwn yn sôn am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r pwerau trethu a benthyca a ddatganolwyd o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Mae llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud; mae ardrethi busnes wedi'u datganoli'n llwyr a'r gwaith wedi hen ddechrau i sicrhau bod trethi yn lle Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi'n cael eu rhoi ar waith yn 2018. Mae llawer o waith i'w wneud eto, ond mae'r flwyddyn weithredu gyntaf yn sylfaen gadarn ar gyfer bwrw ymlaen.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd, gwelwyd y Llywodraeth yn mapio llwybr at setliad datganoli cadarn i Gymru a fydd yn para. Mae Bil drafft Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn rhoi ar waith Gytundeb Dydd Gŵyl Dewi a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ym mis Chwefror. Mae'n darparu ar gyfer setliad datganoli eglurach, a hwnnw wedi'i seilio ar fodel cadw pwerau a chryfhau datganoli drwy ddatganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru.

Mae cael Cynulliad a Llywodraeth yng Nghymru sy'n fwy atebol yn elfennau hanfodol o'r trefniadau datganoli newydd. Fis diwethaf, cyhoeddodd y Llywodraeth gyllid gwaelodol cymharol i Gymru, sef 115% o'r gwariant cyfatebol yn Lloegr, a'n bwriad o ddileu'r gofyniad i gynnal refferendwm er mwyn rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith.

Bydd y newidiadau hyn, a'n gwaith parhaus i ddatganoli pwerau trethu a benthyca o dan Ddeddf Cymru 2014, yn adeiladu Cymru gryfach o fewn Teyrnas Unedig gref. Bydd yn golygu bod gan Gymru lywodraeth ddatganoledig gryfach a mwy atebol, ac y bydd gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yr arfau cywir i alluogi Cymru i ddatblygu fel cenedl.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS STEPHEN CRABB AS**
**YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU**

## PENNOD 1

## RHAGARWEINIAD

### Cwmpas a Chynnwys yr Adroddiad hwn

1. Yr adroddiad hwn am Ran 2 o Ddeddf Cymru 2014 yw'r cyntaf sydd wedi'i gyhoeddi ers i'r Ddeddf gael cydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014.

2. Mae Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 yn ymdrin â datganoli pwerau ariannol yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - creu Cyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru;
    - datgymhwyso Treth Dir Treth Stamp y Deyrnas Unedig yng Nghymru a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar drafodiadau tir yng Nghymru;
    - datgymhwyso Treth Dirlenwi'r Deyrnas Unedig yng Nghymru a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar warediadau i safleoedd tirlenwi yng Nghymru;
    - darpariaeth i Weinidogion Cymru allu benthyca;
    - y pŵer i greu trethi datganoledig newydd.

3. Rhoddir y darpariaethau ariannol ar waith dros nifer o flynyddoedd ac mae'r amserlenni ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi wedi'u cynnwys yn y Papur Gorchymyn[1] a o gyhoeddwyd gyda Bil Cymru ym mis Mawrth 2014.

4. Er mwyn i'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) gael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses hon, mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Cymru gyflwyno adroddiad bob blwyddyn am weithredu'r rhan hon o'r Ddeddf. Er mwyn i'r Senedd a'r Cynulliad wybod beth yw barn y ddwy weinyddiaeth: mae gofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd i'r Senedd a darparu copi o'r adroddiad i Weinidogion Cymru. Mae gofyn i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron y Cynulliad, rhoi adroddiad eu hunain i'r Cynulliad, a darparu copi i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol osod adroddiad Gweinidogion Cymru gerbron Dau Dŷ'r Senedd. Bydd y ddwy Lywodraeth yn parhau i gyflwyno adroddiadau tan ben-blwydd cyntaf y diwrnod y daeth darpariaethau olaf Rhan 2 i rym.

5. Yn ôl Adran 23(7) o Ddeddf Cymru 2012, mae gofyn i'r adroddiadau blynyddol gynnwys*: [cyfieithiad o'r Ddeddf Saesneg yw'r canlynol]*

    *(a) datganiad am y camau a gymerwyd, boed hynny gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) tuag at gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,*

    *(b) datganiad am y camau y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed hynny gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad neu gan eraill, tuag at gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,*

[1] Cm 8838 *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol*
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

*(c) asesiad o sut mae darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u cychwyn yn cael eu rhoi ar waith,*

*(d) asesiad o sut mae unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian wedi'u rhoi ar waith, ac o unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a gynhwyswyd neu a ddiwygiwyd drwy'r Rhan hon,*

*(e) effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru), ac*

(f) *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.*

6. *Yn Atodiad A* rhoddir rhestr o'r paragraffau yn yr adroddiad hwn sy'n ymateb i bob un o'r gofynion hyn. Serch hynny, nid yw'r adroddiad yn gyfyngedig i'r gofynion hyn, ac fe gaiff hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r naill Lywodraeth neu'r llall yn credu eu bod yn berthnasol neu'n ddefnyddiol i'r Senedd ac i'r Cynulliad.

**PENNOD 2**

**CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU**

7. Sefydlwyd drwy Ddeddf Cymru 2014, yn amodol ar ganlyniad refferendwm yng Nghymru ynglŷn â chyflwyno Cyfraddau Treth Incwm i Gymru, y caiff prif gyfraddau treth incwm y Deyrnas Unedig eu gostwng 10c i'r rheini sy'n cael eu diffinio'n drethdalwyr Cymru, ac y bydd y Cynulliad yn cael gosod, bob blwyddyn, Gyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru a gaiff eu hychwanegu at gyfraddau gostyngol y Deyrnas Unedig. Bydd gweddill y strwythur treth incwm yn parhau'n fater sydd heb ei ddatganoli, a Senedd y Deyrnas Unedig a fydd yn pennu hyn o hyd.

8. Yn yr Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref yn 2015, dywedwyd y byddwn yn deddfu i ddileu'r gofyniad i gynnal refferendwm er mwyn rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi'r newid hwn ar waith ym Mil Cymru, bil newydd a gyhoeddwyd ar ei ffurf ddrafft ar 20 Hydref 2015.

9. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn trafod y newid gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn y misoedd nesaf.

**PENNOD 3**

**TRETHI TRAFODIADAU TIR A GWAREDU I SAFLEOEDD TIRLENWI YNG NGHYMRU**

**Rhagarweiniad**

10. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli'r pŵer i drethu trafodiadau tir a gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac ar gyfer datgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, a disgwylir y caiff y rhain eu cyflwyno ym mis Ebrill 2018. O'r adeg honno ymlaen, ni fydd trethi'r Deyrnas Unedig yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru ac fe gaiff grant bloc Cymru ei addasu i wneud iawn am hyn.

**Camau a gymerwyd tuag at roi hyn ar waith**

11. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi y bydd yn sefydlu corff newydd - Awdurdod Cyllid Cymru - i oruchwylio gweinyddu ei threthi datganoledig. Cyflwynwyd Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), a fydd yn creu Awdurdod Cyllid Cymru ac yn rhoi ar waith y fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru i'r Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2015.

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi mai'r partner a ffefrir ganddi i weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i weinyddu'r Dreth Trafodiadau Tir yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru'n gweinyddu'r Dreth Trafodiadau Tir, gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar weithgareddau cydymffurfio.

13. Mae Cyllid a Thollau EM wedi bod yn datblygu cynigion ar gyfer sut y bydd yn gweinyddu'r Dreth Trafodiadau Tir. Ei fwriad yw addasu'r system gyfrifiadurol mae'n ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp i weithredu'r dreth ddatganoledig a defnyddio staff profiadol sydd ganddo eisoes sy'n gweithio ar honno i wneud y gwaith gweinyddu (er enghraifft, prosesu datganiadau a dilyn trywydd gwallau).

14. Bydd Cyllid a Thollau EM hefyd yn gwneud rhywfaint o waith cydymffurfio ar y Dreth Trafodiadau Tir, gan gynnig y byddai hyn yn cael ei wneud gan dîm arbenigol sy'n gweithio yng Nghymru ac yn gweithio'n agos gyda'r tîm gweithredol ac Awdurdod Cyllid Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd Awdurdod Cyllid Cymru'n gwneud gwaith cymhleth ym maes cydymffurfio ac osgoi sy'n berthnasol i'r Dreth Trafodiadau Tir - bydd Cyllid a Thollau EM yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gweld sut orau y gall y ddau sefydliad gydweithio ar yr achosion hyn.

15. Cyflwynwyd amcangyfrif Cyllid a Thollau EM o gostau rhoi eu helfennau o'r Dreth Trafodiadau Tir ar waith i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad mewn llythyr gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yng Nghymru ar 4 Tachwedd. Amcangyfrifir y byddai'r costau sefydlu rhwng £2.5 miliwn a £3 miliwn ac y byddai'r costau cynnal hyd at £1 miliwn y flwyddyn. Mae'n bosibl y byddai rhaid i Gyllid a Thollau EM godi TAW ar rywfaint o'r gweithgarwch gweithredu, sy'n golygu y byddai'r ffigurau hyn yn cynyddu – mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn.

16. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae Cyllid a Thollau EM wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt ddeall yn well sut mae Cyllid a Thollau EM yn gweinyddu Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi a'i bwerau trethu ehangach, Mae staff Cyllid a Thollau EM hefyd wedi rhoi tystiolaeth ddwywaith i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â threthi datganoledig.

**Camau pellach i'w cymryd tuag at roi'r darpariaethau ar waith**

17. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd Cyllid a Thollau EM yn parhau i fireinio'i gynigion ar gyfer gweithredu'r Dreth Trafodiadau Tir. Bydd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar gytuno ynglŷn â sut i dylid ymdrin â materion megis rhannu gwybodaeth a rhyngweithio rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a Chyllid a Thollau EM ym maes cydymffurfio. Mae Cyllid a Thollau EM hefyd yn bwriadu sefydlu prosiect i reoli'r gweithgarwch hwn a hefyd i ddatblygu cynllun ar gyfer 'dirwyn i ben' Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru.

18. O ran y Dreth Dirlenwi, bydd Cyllid a Thollau EM yn canolbwyntio ar gynllunio i drosglwyddo cyfrifoldeb llawn i'r Cynulliad am drethu gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen. Datblygir cynllun cyfathrebu i roi gwybodaeth i weithredwyr y Dreth Dirlenwi a defnyddwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

19. Bydd Cyllid a Thollau EM hefyd yn parhau i helpu Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i feithrin eu gallu drwy ddarparu rhagor o gymorth i bobl ddeall sut mae Cyllid a Thollau EM yn gweinyddu trethi, yn enwedig ynghylch materion sy'n berthnasol i Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi.

20. Wrth ddatganoli'r ddwy dreth, bydd y grant bloc yn cael ei addasu i wneud iawn am y newid. Mae rhagor o wybodaeth am effeithiau'r pwerau i drethu ar grant bloc Cymru i'w gweld ym mhennod 6 o'r adroddiad hwn.

**PENNOD 4**

**PWERAU BENTHYCA**

21. Mae darpariaethau Deddf Cymru 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca arian at y dibenion a ganlyn o fis Ebrill 2018 ymlaen

    - Yn y Ddeddf roedd pwerau benthyca cyfredol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn cael eu cadw ar y lefel bresennol, sef hyd at £500m. Gall Gweinidogion Cymru fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru neu er mwyn rheoli natur gyfnewidiol derbyniadau o fewn blwyddyn (lle bydd yr incwm gwirioneddol yn wahanol i'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw);
    - Roedd y Ddeddf yn estyn yr amgylchiadau hynny lle y caiff Llywodraeth Cymru gael gafael ar fenthyciadau cyfredol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fenthyca arian ar draws blynyddoedd er mwyn ymdopi â gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion blwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro drwy drethi sydd wedi'u datganoli. Unwaith eto, rhaid i'r benthyca hwn ar draws blynyddoedd ddod o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gall fod yn hyd at £200m bob blwyddyn (o fewn cyfanswm y cap presennol, sef £500m) a rhaid ei ad-dalu o fewn 4 blynedd.
    - Yn Neddf Cymru 2014, y terfyn benthyca cyfalaf statudol a bennwyd oedd £500 miliwn. Pennwyd y terfyn hwn er mwyn adlewyrchu'r c. £200 o gyllid treth datganoledig a welid o fis Ebrill 2018 ymlaen a hefyd er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r M4 (os bydd yn dewis gwneud hynny) cyn datganoli elfen o'r dreth incwm. O fewn y terfyn cyffredinol, roedd Trysorlys EM yn cytuno y caiff Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn bob blwyddyn (o 2018-19 ymlaen).

22. Cyn rhoi pwerau benthyca newydd Llywodraeth Cymru ar waith ym mis Ebrill 2018, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno y caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i phwerau benthyca presennol, sy'n fwy cyfyngedig, i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r M4 (os bydd yn dewis gwneud hynny). Mae'r symiau y caiff Llywodraeth Cymru gael eu benthyg yn ystod y cyfnod hwn yn amodol ar gytundeb Trysorlys EM. Felly, mae'r trefniant hwn yn golygu y gall Llywodraeth Cymru ddewis dechrau buddsoddi yn yr M4 gan ragweld y cyllid a ddaw drwy ddatganoli trethi. Gan fod hyn mewn gwirionedd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gallu manteisio ar ei phwerau benthyca newydd yn gynnar, bydd unrhyw symiau a gaiff fenthyg o dan y pwerau presennol hyn yn cyfrif tuag at y cap o £500 miliwn.

23. Yn ogystal â benthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol fel y nodir uchod ac o fanciau masnachol, roedd Papur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi[2] yn ymrwymo y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu dyroddi bondiau er mwyn cael benthyg arian ar gyfer gwariant cyfalaf.

*Camau a gymerwyd tuag at roi hyn ar waith*

[2] Cm 9020 *Pwerau at Bwrpas: Tuag at Setliad Datganoli sy'n para i Gymru* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408589/47683_CM9020_WELSH.pdf

24. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio i gytuno ar broses fanwl er mwyn galluogi benthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen i greu Bondiau Cymru maes o law.

**PENNOD 5**

**PŴER I GREU TRETHI NEWYDD**

25. Gyda chytundeb y ddwy lywodraeth, gellir datganoli rhagor o drethi sy'n bodoli eisoes yn awr ac mae'r Cynulliad yn gallu cyflwyno trethi newydd penodol-i-Gymru. Mae'r pwerau hyn yn cefnogi'r esblygu parhaus ar gyfrifoldebau datganoledig ac maent yn rhoi ffordd newydd i'r Cynulliad wireddu canlyniadau polisi, yn ogystal o bosibl â chodi cyllid ychwanegol.

*Camau a gymerwyd tuag at roi hyn ar waith*

26. Roedd proses ar gyfer creu trethi newydd a/neu ddatganoli trethi presennol yn y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gyda Deddf Cymru 2014 (gweler troednodyn 1).

27. Roedd y Papur Gorchymyn yn cynnwys cyfres o feini prawf ar gyfer asesu cynigion ynglŷn â threthi newydd ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu unrhyw gynigion o'r fath mewn da bryd.

28. Daeth y pŵer hwn i rym ar yr un dyddiad â Deddf Cymru 2014.

**PENNOD 6**

**EFFAITH PWERAU NEWYDD AR GRANT BLOC CYMRU**

29. Un o egwyddorion sylfaenol datganoli trethi yw bod elfen o'r grant bloc yn cael ei chyfnewid am y gallu i godi trethi. Bydd gofyn cael cytundeb Cydbwyllgor y Trysorlys ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer addasiadau i'r grant bloc yng nghyswllt Deddf Cymru 2014.

30. Yn y Papur Gorchymyn (gweler troednodyn 1), mae'r trefniadau ar gyfer addasu'r grant bloc yng nghyswllt Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan adlewyrchu un o argymhellion Comisiwn Silk. O dan y trefniadau hyn, mae'r addasiad cychwynnol yn adlewyrchu'r dreth y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei hildio, ac yna, datblygir hyn drwy ddefnyddio'r mecanwaith didynnu wedi'i fynegeio a gynigiwyd yn wreiddiol gan Gomisiwn Holtham. Mae manylion llawn y trefniadau hyn i'w gweld yn y Papur Gorchymyn. Bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraeth Cymru yn trafod gweithredu'r mecanwaith hwn ochr yn ochr â chyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru.

31. Ni chafwyd argymhelliad gan Gomisiwn Silk ynghylch y mecanwaith ar gyfer addasu'r grant bloc gyda golwg ar y trethi a ddatganolir yn llwyr (Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi), ac felly awgrymwyd dull posibl yn y Papur Gorchymyn. Mae hyn yn golygu addasiad cychwynnol (unwaith eto'n adlewyrchu'r dreth sy'n cael ei hildio gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig) ac yn ostyngiad canrannol bychan yn holl symiau dilyniannol Barnett (i adlewyrchu'r gyfran o wariant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei hariannu drwy'r ddwy dreth). Ers cyhoeddi'r papur, cyflwynwyd lefel gyllid waelodol ar gyfer y cyllid cymharol a roddir i Lywodraeth Cymru. Byddwn felly'n parhau i drafod â Llywodraeth Cymru sut i fynd ati i ymdrin â'r addasiadau hyn i'r grant bloc, er mwyn cytuno ar fecanwaith addasu teg sy'n gweithio ochr yn ochr â Fformwla Barnett a hefyd â'r trefniadau cyllid gwaelodol.

**PENNOD 7**

## CAMAU PELLACH I'W CYMRYD TUAG AT ROI HYN AR WAITH

### Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (y Swyddfa)

32. Dechreuodd y Swyddfa gyhoeddi rhagolygon ar gyfer trethi Cymru ochr yn ochr â Datganiad yr Hydref yn 2014 a bydd yn parhau i gyhoeddi'r rhagolygon hyn ddwywaith y flwyddyn. Roedd y rhagolygon yn Natganiad yr Hydref yn 2015 yn adlewyrchu'r trethi a ddatganolir i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2014, gan gynnwys 10 ceiniog ym mhob band treth incwm.

### Cronfa Wrth Gefn

33. Roedd y Papur Gorchymyn (troednodyn 1) yn dweud y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru dalu'r dreth sy'n weddill i gronfa wrth gefn i'w helpu i reoli sefyllfa gyfnewidiol ei chyllideb a fydd yn codi yn sgil ei phwerau trethu newydd.

34. Daw'r y gronfa wrth gefn ar waith ochr yn ochr â datganoli Treth Dir y Treth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn 2018.

**PENNOD 8**

**GOFYNION ADRODD ERAILL**

35. Yn ogystal â'r meysydd a drafodwyd yn y penodau blaenorol **(troednodyn - camau a gymerwyd tuag at weithredu, camau i'w cymryd eto, ac effaith y darpariaethau ar y grant bloc)**, mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu bod adroddiadau blynyddol am Ran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys:

- asesiad o ddarpariaethau Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;
- asesiad o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a gynhwyswyd neu a ddiwygiwyd yn sgil Rhan 2;
- datganiad ynglŷn ag effaith Rhan 2 am swm unrhyw daliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac
- unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau cyllid i Lywodraeth Cymru y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad iddynt.

36. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf ar ôl i'r Ddeddf gael cydsyniad brenhinol ym mis Rhagfyr 2014. Dylid nodi, yn unol ag adran 29(2)(b) o'r Ddeddf, fod holl ddarpariaethau Rhan 2 wedi dod i rym ddau fis ar ôl deddfu ac eithrio'r adrannau sy'n berthnasol i Gyfraddau Treth Incwm Cymru a benthyca gan Weinidogion Cymru. Bydd gofyn cael Gorchmynion gan Drysorlys EM ar gyfer y darpariaethau benthyca cyn eu rhoi ar waith yn llwyr. Felly, asesir sut y rhoddir y darpariaethau benthyca ar waith mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddileu'r gofyniad i gynnal refferendwm er mwyn rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith ac mae'n bwriadu newid hyn ym Mil Cymru sydd ar y gweill.

37. Yn ogystal â darpariaethau Deddf Cymru 2014, datganolwyd Ardrethi Annomestig yn llwyr ar 1 Ebrill 2015, yn unol ag argymhellion Comisiwn Silk. Er bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod yr ardrethi (ac felly nad oedd gofyn cael deddfwriaeth yn Neddf Cymru 2014), nid oedd y cyllid a gynhyrchwyd yn cael effaith uniongyrchol ar y cyllid oedd ar gael i Lywodraeth Cymru. Ers mis Ebrill 2015, a'r drefn wedi'i datganoli llawn, bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'r holl Ardrethi Annomestig a gynhyrchir yng Nghymru yn hytrach na chyfran o'r newidiadau yng ngwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar sail y boblogaeth, a ariennir drwy Drethi Annomestig Lloegr.

**CASGLIAD**

38. Mae Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn pennu y dylid gosod yr adroddiad Blynyddol am weithredu Rhan 2 o'r Ddeddf honno a'i rhoi ar waith ar ben-blwydd dyddiad derbyn Cydsyniad Brenhinol neu cyn hynny (17 Rhagfyr 2014).

39. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd y camau cyntaf wrth inni symud ymlaen at roi'r Ddeddf ar waith yn llawn. Mae'r Cynulliad yn craffu ar ddeddfwriaeth a fydd yn bwrw ymlaen i weithredu trethi datganoledig ar drafodiadau tir a gwaredu i safleoedd tirlenwi ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo y bydd Llywodraeth Cymru'n gallu cyhoeddi bondiau yn y dyfodol i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf.

40. At hynny, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud mai ei bwriad yw dileu'r gofyniad i gynnal refferendwm ar ddatganoli cyfran o'r dreth incwm y darparwyd ar ei gyfer yn Neddf Cymru

41. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol nesaf am weithredu Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014, yn unol ag Adran 23(3)(b) o'r Ddeddf, cyn 17 Rhagfyr 2016.

**Atodiad A - Gofynion Adrodd yn Neddf yr Alban 2012 ac ymhle y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad hwn**

1. *datganiad o'r camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) tuag at weithredu darpariaethau'r rhan hon,*

   Pennod 2: Paragraff 8
   Pennod 3: Pargraffau 11-16
   Pennod 4: Pargraffau 22-23
   Pennod 5: Pargraffau 26-28

2. *datganiad ynglŷn â'r camau y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, tuag at weithredu darpariaethau'r Rhan hon,*

   Pennod 2: Pargraff 9
   Pennod 3: Pargraffau 17-20
   Pennod 4: Paragraff 24

3. *asesiad o ddarpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u rhoi ar waith;*

   gweler Pennod 9

4. *asesiad o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a gynhwyswyd neu a ddiwygiwyd yn sgil Rhan 2;*

   gweler Pennod 9

5. *datganiad ynglŷn ag effaith Rhan 2 ar swm unrhyw daliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 200 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru);*

   gweler Pennod 9

6. *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau cyllid i Lywodraeth Cymru y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad iddynt.*

   gweler Pennod 9